# Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

## CWLS (2) 14-06 (p 1)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mercher 30 Tachwedd 2006
### Amser y cyfarfod: 9:00am – 12:15pm
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd

**Amgueddfa Cymru**

Yn 2007, bydd Amgueddfa Cymru yn dathlu ei chanmlwyddiant. Drwy gynnal Rhaglen Ganmlwyddiant yn llawn digwyddiadau a gweithgareddau byddwn yn manteisio ar y cyfle i ddangos sut mae'r Amgueddfa wedi datblygu ers iddi gael ei sefydlu ganrif yn ôl. Byddwn hefyd yn edrych tua'r dyfodol ac ar y gwaith o gynnwys y themâu a'r amcanion sy'n rhan annatod o'n Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol yng ngweithrediad yr Amgueddfa o ddydd i ddydd.

Pan ddechreuwyd y broses o lunio 'Gweledigaeth' yn 2003, roeddem am sicrhau bod yr Amgueddfa mewn sefyllfa dda i wynebu her yr unfed ganrif ar hugain. Er mwyn gwneud hyn, cynhaliwyd ymgynghoriadau eang gyda'n holl randdeiliaid presennol, a chyda rhai na fyddai fel arfer yn ymgysylltu â gwaith yr Amgueddfa. O ganlyniad i hyn, lluniwyd cyfres o 'Amcanion y Weledigaeth' sy'n adlewyrchu anghenion ein defnyddwyr, ac sy'n caniatáu i ni lywio gwaith y sefydliad i gyfeiriadau newydd llawn her.

Ceir disgrifiad o'r amcanion hyn yn y Datganiad o Weledigaeth, a ddarperir gyda'r papur hwn. Mae'r amcanion yn creu fframwaith i'n gweithgareddau gan sicrhau ein bod yn rhoi pwyslais priodol ar flaenoriaethau craidd y sefydliad; darparu gwasanaethau o safon ym maes dysgu a stiwardiaeth, dathlu'r amrywiaeth o ddefnyddwyr a staff, gweithio mewn partneriaeth i hybu ein gwaith ein hunain a gwaith eraill, codi proffil y sefydliad a defnyddio'n hadnoddau'n ofalus er mwyn i'r Amgueddfa ffynnu a thyfu dros y ganrif nesaf.

Yn rhan o'r gwaith o lunio Gweledigaeth, buom hefyd yn canolbwyntio ar bwysigrwydd sefydlu cyfeiriad deallusol cryf i'r Amgueddfa, ac unwaith eto, cynhaliwyd ymgynghoriad eang ymysg ein defnyddwyr, ein cydweithwyr a'n cymheiriaid i ddynodi'r themâu deallusol fyddai'n rhoi'r arweiniad gorau i'n gwaith yn ystod y blynyddoedd nesaf. Dyma'r themâu hynny:

- Bywyd: Deall ein planed a'n hamgylchedd
- Gwreiddiau: Gwneud synnwyr o'r presennol drwy gysylltu pobl â'u gorffennol
- Perthyn: Cyfleu atgofion a phrofiadau diwylliannol pobl, a'r hyn y mae byw yng Nghymru'r 21ain ganrif yn ei olygu iddyn nhw
- Creadigrwydd: Dathlu creadigrwydd celf ac artistiaid, dyfeiswyr a dyfeisiadau a'r syniadau sydd wedi ysbrydoli ein byd
- Dyfodol: Trafod ac ymdrin â'r materion fydd yn llunio yfory

Yn ei gyflwyniad gerbron y Pwyllgor, bydd Michael Houlihan, Cyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfa Cymru, yn dangos enghreifftiau o'r modd y bydd y themâu hyn ac amcanion y Weledigaeth yn cael eu darparu drwy gydol y Canmlwyddiant.

Wrth weithio i ehangu capasiti ein teulu o Amgueddfeydd Cenedlaethol, byddwn yn gosod yr amcanion a'r themâu hyn oddi mewn i'n proses gynllunio strategol ar gyfer y tymor hir, drwy ddatblygu Sain Ffagan yn amgueddfa sy'n adrodd hanes Cymru, ac ymhellach i'r dyfodol, drwy greu Oriel Gelf Genedlaethol i Gymru.